Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**

# Craffu ar Ail Gyllideb Atodol 2023-24

Mawrth 2024

# 1. Cyflwyniad

**1.** Ar 20 Chwefror 2024, gosododd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) gynnig Ail Gyllideb Atodol 2023-24 (y Gyllideb Atodol),[1] a Nodyn Esboniadol cysylltiedig.[2] At hynny, cyhoeddwyd dyraniadau diwygiedig y prif grwpiau gwariant ochr yn ochr â'r dogfennau hyn.[3]

**2.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog yn ei gyfarfod ar 29 Chwefror 2024.[4]

**3.** Mae'r Gyllideb Atodol hon yn adlewyrchu newidiadau cyllidebol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23, a gafodd ei gosod ar 13 Mehefin 2023.[5] Mae hefyd yn cynnwys newidiadau a amlygwyd yn y Diweddariad Ariannol, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog ar 17 Hydref 2023,[6] ynghyd â diwygiadau eraill.


**4.** Mae'r Gyllideb Atodol yn nodi nifer o ddyraniadau o gronfeydd wrth gefn a throsglwyddiadau rhwng portffolios Llywodraeth Cymru, ac mae'n cynnwys rhagolygon diwygiedig ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol. At hynny, mae'n cynnwys diwygiadau i ragolygon trethi datganoledig, Addasiadau i'r Grant Bloc, arian a dynnwyd o Gronfa Wrth Gefn Cymru, a benthyciadau arfaethedig.

**5.** Mae'r Gyllideb Atodol hefyd yn cynnwys addasiadau i'r cyllidebau ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilio Cymru, fel y trafododd y Pwyllgor ar 18 Ionawr 2024.[7] Ni chyflwynodd Comisiwn y Senedd gyllideb atodol bryd hynny.

[1] Llywodraeth Cymru, Ail Gyllideb Atodol 2023-24
[2] Llywodraeth Cymru, Ail Gyllideb Atodol 2023-24 - Nodyn Esboniadol
[3] Llywodraeth Cymru, Ail Gyllideb Atodol 2023-24 - Dyraniadau'r Prif Grwpiau Gwariant
[4] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024
[5] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24
[6] Llywodraeth Cymru, Diweddariad ar sefyllfa ariannol 2023-2024: crynodeb o'r prif newidiadau, 17 Hydref 2023
[7] Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 18 Ionawr 2024

# 2. Trosolwg

**7.** Mae'r Gyllideb Atodol[8] yn dangos cynnydd mewn refeniw ynghyd â chyfalaf (ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol) a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru, o £288.8 miliwn (1.2 y cant), o £23.6 biliwn i £23.8 biliwn. Y newidiadau, a grynhoir isod fesul Prif Grŵp Gwariant neu adran.




[8] Llywodraeth Cymru, Ail Gyllideb Atodol 2023-24

| | Cyfanswm dyraniad refeniw a chyfalaf | Newid o Gyllideb Atodol Gyntaf i Ail Gyllideb Atodol | |
|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | £11,577m | £667m<br>6.1% | ▲ |
| Cyllid a Llywodraeth Leol* | £5,161m | -£19m<br>-0.4% | ▼ |
| Newid Hinsawdd | £3,376m | £96m<br>2.9% | ▲ |
| Y Gymraeg ac Addysg** | £2,341m | -£340m<br>-12.7% | ▼ |
| Yr Economi | £477m | -£60m<br>-11.1% | ▼ |
| Materion Gwledig | £407m | -£40m<br>-9.0% | ▼ |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | £346m | -£17m<br>-4.6% | ▼ |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | £158m | £1m<br>0.9% | ▲ |

**8.** Mae'r prif newidiadau i'r cyllid sydd ar gael yn cynnwys cyfanswm cynnydd net yng nghyllideb Llywodraeth Cymru o £664.1 miliwn mewn adnoddau cyllidol. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o £490.3 miliwn gan Lywodraeth y DU, sef £363.6 miliwn mewn symiau canlyniadol Barnett; £132.7 miliwn o Ddatganiad Hydref 2023 y DU a £230.9 miliwn o Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU.

**9.** Daw cynnydd net ychwanegol o £173.8 miliwn o gronfeydd Llywodraeth Cymru ei hun, sy'n cynnwys:

- £199.1 miliwn wedi'i dynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru;
- newid o gyfalaf cyffredinol gwerth £18.6 miliwn; a
- gostyngiad o £43.9 miliwn, o ganlyniad i ddwyn cyllid ymlaen i 2024-25 y tu allan i Gronfa Wrth Gefn Cymru.

**10.** Nid oes unrhyw newid i incwm treth ddatganoledig nac ad-daliadau prif fenthyciadau.

**11.** Wrth grynhoi prif nodau'r Gyllideb Atodol, dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau:

> *"… the key announcement is the one that relates to the NHS and the additional funding to make sure that the MEG comes in on budget. And I suppose that's what I want to achieve by the whole supplementary budget in the sense of bringing the budget … where it needs to be, making sure … that we have some reserve now to take into next year and we can be in a better position than anticipated moving into the next year as well."* [9]

**12.** O ran cyllid canlyniadol a gafwyd gan Lywodraeth y DU, dywedodd y Gweinidog fod proses amcangyfrif atodol eleni wedi bod yn arbennig o ansefydlog.[10] Ychwanegodd fod y ffigurau cynharach a ddarparwyd gan y Trysorlys fel rhagdybiaethau cynllunio wedi cynyddu'n sylweddol ond bod 'pethau'n symud o gwmpas llawer'. [11]

**13.** Ailadroddodd swyddog y Gweinidog fod gan Lywodraeth Cymru 'ddealltwriaeth hwyr iawn' o'i sefyllfa gwariant, gan ychwanegu, er bod yr arian ychwanegol i'w groesawu, fod yr amrywiad sylweddol o'r hyn a ddarparwyd yn wreiddiol yn hynod ddi-fudd o ran dibenion cynllunio a beth yr oedd yn ceisio ei gyflawni o fewn y gyllideb atodol.[12]

**14.** Yn ôl y Gweinidog, gwaethygwyd yr ansicrwydd hwn gan fod y Trysorlys wedi gwrthod cais Llywodraeth Cymru i newid hyd at £200 miliwn o gyfalaf i refeniw.[13]

**15.** Oherwydd y ffactorau hyn, eglurodd y Gweinidog fod yr ansicrwydd ynghylch yr hyn a allai fod yn amcangyfrifon atodol Llywodraeth y DU yn golygu ei bod wedi cymryd agwedd ofalus. [14] Ychwanegodd:

> *"… had we known that the size of the consequential funding, coming very late at supplementary estimates, was going to be of the order it was, then we could have taken different decisions in year. Also, had we known that the UK Government wasn't*

[9] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 137
[10] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 48
[11] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 48
[12] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 50
[13] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 12
[14] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 12

> *going to agree to the request to switch capital to revenue, then, potentially, we would have not made changes at that point to our capital plans. So, I think that the kind of certainty that we have at the year end, if we'd had even just some of that at that point during the summer when we were undertaking the reprioritisation work, we could have made, and would have made, I think, different choices."*[15]

**16.** Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y Trysorlys wedi rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru i gydnabod y newidiadau munud olaf i'w dyraniadau cyllid:

> *"… the Treasury allowed us to carry that £43 million into next year because there was so much variance happening very late in the year. So, it has been helpful in the sense of recognising the volatility there".*[16]

**17.** Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd fod Llywodraeth Cymru yn gallu cario rhywfaint o gyllid, y tu hwnt i'r arian neu'r tu allan i gronfa wrth gefn Cymru, ymlaen i'r flwyddyn nesaf, ac felly mae hynny'n golygu y gall fod cronfa fach wrth gefn ar gael.[17] Ychwanegodd:

> *"… that was part of the negotiation we did with the Chief Secretary to the Treasury, so, it's not a routine thing, but it was something that we did because it was so late in the year to get our supplementary budget figures and they were moving around quite dramatically as we moved to the end of the financial year as well."*[18]

**18.** Er gwaethaf y datblygiadau hyn, nododd y Gweinidog hefyd y gellid gwneud mwy i wella'r trefniadau presennol, gan awgrymu y dylid caniatáu i unrhyw beth sy'n dod drwodd yn hwyr yn y flwyddyn ariannol gael ei gario drosodd i'r flwyddyn nesaf.[19]

[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 14
[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 49
[17] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 40
[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 40
[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 57

## Effaith chwyddiant, costau a phwysau cyflog

**19.** Mae'r Gyllideb Atodol yn cadarnhau'r dyraniadau yn ystod y flwyddyn a gyhoeddwyd gan y Gweinidog drwy ei Diweddariad Ariannol ar 17 Hydref 2023[20]. Ar y pryd, dywedodd y Gweinidog fod angen y newidiadau hyn "i fynd i'r afael ag effaith ein cyllideb ni sydd yn werth oddeutu £900 miliwn yn llai na phan gafodd ei phennu yn 2021".[21]

**20.** Pan holwyd y Gweinidog ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r diffyg cyllid ym mis Awst 2023[22] cyn cyhoeddi manylion am yr ymarfer, dywedodd y Gweinidog y gellid bod wedi aros tan fis Hydref ac yna datgelu canlyniad y gwaith hwnnw, ond dywedodd ei fod yn benderfyniad cytbwys iawn, oherwydd roedd yn gwybod bod pobl mewn sefydliadau yn y gwasanaethau cyhoeddus eisoes yn teimlo'r pwysau. Dywedodd y gellid gweld y byddai pwysau ar y gyllideb.[23]

**21.** O ran a oedd y dull hwn yn effeithiol, cydnabu'r Gweinidog:

> *"… on the one hand, it did give the reassurance, particularly, I think, to the health service, that we were addressing the issue, but, equally, I know it did cause concern then amongst others, as well. We were just trying to be as transparent as we could be, but it was finely balanced. We could have not said anything and kept it all until October."*[24]

**22.** Pan ofynnwyd i'r Gweinidog grynhoi sut yr oedd Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu dyraniadau cyllid yn y Gyllideb Atodol, dywedodd:

> *"At the time of the update that I provided in October, we were obviously trying to deal with some significant pressures that were being felt in year ….*
>
> *So, alongside that particular reprioritisation exercise, we also maximised the use of our reserves and planned on using consequentials, which we expected to come from the UK Government and requested that switch from capital to revenue*

---

[20] Llywodraeth Cymru, Diweddariad ar sefyllfa ariannol 2023-2024: crynodeb o'r prif newidiadau, 17 Hydref 2023
[21] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 17 Hydref 2023, paragraff 122
[22] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar Gyllideb 2023-24, 9 Awst 2023
[23] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 16
[24] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 16

> *from the UK Government, and also made a combination of revenue-to-capital savings in our departmental budgets.*[25]

**23.** Cadarnhaodd y Gweinidog, ers hynny, ei bod wedi parhau i fonitro'r sefyllfa ariannol yn agos a bod yn rhaid i bob un o Weinidogion Cymru weithio tuag at gyfansymiau diwygiedig eu prif grwpiau gwariant.[26]

**24.** Sicrhaodd y Gweinidog yr Aelodau fod proses fonitro fisol gadarn iawn ar waith, sy'n golygu gweithio ar draws y Llywodraeth i ddeall y sefyllfa.[27]

**25.** Darparodd swyddog y Gweinidog ragor o fanylion am y broses hon, gan ddweud wrth y Pwyllgor:

> *"… it's a well-established, robust monitoring process that we have. It happens every month, we get revised forecasts in from across the entire organisation, both from a systematic point of view, so the figures turn up through our system, what's been loaded as far as forecasts are concerned, and then we get a report from each MEG which is signed off by each either deputy director of finance or director of finances at that area.*
>
> *That gives us an opportunity to look into those numbers and challenge wherever necessary to ensure the robustness of what is being provided. And then, all of that gets consolidated into a monthly report which is then provided to senior officials within Welsh Government."*[28]

**26.** Ychwanegodd y Gweinidog:

> *"… I report monthly to Cabinet. It's usually in the form of a paper to note but my officials might speak to it if it feels it needs a bit more explanation. And that then offers Cabinet the opportunity to see where we are in year."*[29]

---

[25] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraffau 8-9
[26] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 9
[27] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 10
[28] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraffau 19 ac 20
[29] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 21

**27.** Teimlai'r Gweinidog fod y dull hwn yn bwysig, yn enwedig pan fo cyllidebau dan bwysau gwirioneddol, a bod gan bawb y math hwnnw o farn dryloyw ynghylch ble mae'r pwysau ar draws y Llywodraeth.[30]

## Barn y Pwyllgor

**28.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru yn dilyn cyhoeddi Amcangyfrifon Atodol diweddaraf y DU. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus bod newidiadau i sefyllfa gyllido Llywodraeth Cymru yn cael eu gwneud yn hwyr yn y flwyddyn a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar allu Llywodraeth Cymru i gynllunio a rheoli ei chyllideb. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch y materion acíwt y mae'r Gweinidog yn eu hwynebu eleni, lle'r oedd lefelau cyllid o ganlyniad i Amcangyfrifon Atodol y DU yn arbennig o ansicr ac ansefydlog. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'r Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn anodd i'r Gweinidog beidio ag ymddwyn yn ofalus.

**29.** Mae'r Pwyllgor yn arbennig o falch o glywed bod y Trysorlys wedi caniatáu i'r Gweinidog symud ymlaen â chyfran o'r cyllid a gafwyd i'r flwyddyn ariannol nesaf, i gydnabod pa mor hwyr y cyhoeddwyd y cyllid ychwanegol hwn. At hynny, mae'r Pwyllgor yn nodi bod penderfyniad y Trysorlys i hepgor y terfynau tynnu i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru ar gyfer 2023-24 wedi bod o fudd i Lywodraeth Cymru o ran rheoli'r gyllideb sydd ar gael iddi ac mae'n credu na ddylai'r terfynau blynyddol hyn gael eu hailosod yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod yr hyblygrwydd hwn yn hanfodol i ysgogiadau cyllidol Llywodraeth Cymru o ystyried bod gwerth termau real y pwerau hyn wedi'u rhwystro'n ddifrifol gan y cyd-destun economaidd presennol, ac mae'n galw am eu ffurfioli yn hytrach na chytuno arnynt fesul achos ac ar sail ad hoc.

**30.** Roedd y Pwyllgor yn siomedig bod cais y Gweinidog i newid cyllid o gyllidebau refeniw i gyllidebau cyfalaf wedi'i wrthod gan y Trysorlys, er bod gan awdurdodau lleol yng Nghymru y pŵer i wneud hynny. Mae hwn yn ddatblygiad sy'n peri pryder o ystyried ei fod yn rhan allweddol o ymarfer ailflaenoriaethu Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn, a gofynnwn i'r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion i egluro'r rhesymau a roddwyd ac effaith ymarferol penderfyniadau'r Trysorlys ar gynlluniau cyllidebol Llywodraeth Cymru.

**31.** Mae'r penderfyniad hwn hefyd yn awgrymu, er gwaethaf y camau cadarnhaol a gymerwyd, fod gwaith i'w wneud o hyd i argyhoeddi llywodraeth

[30] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 23

ganolog bod angen newidiadau i bwerau cyllidol Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi galw ers tro ar Lywodraeth Cymru i gael yr offer cyllidol cywir i allu manteisio i'r eithaf ar ei sefyllfa gyllido,[31] ac adlewyrchwyd materion o'r fath hefyd mewn cynnig trawsbleidiol y cytunwyd arno'n unfrydol gan y Senedd yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Chwefror 2024.[32] Felly, mae'n destun gofid mawr bod gwaith i'w wneud o hyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y maes hwn.

**32.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod mai effaith chwyddiant oedd y prif yrrwr ar gyfer y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei Diweddariad Ariannol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023. Mae'r Pwyllgor hefyd yn deall bod y Gweinidog wedi penderfynu bod angen ymarfer o'r fath er mwyn ymateb i bwysau ychwanegol o ran costau yn ystod y flwyddyn fel mater o frys, yn enwedig gan fod dyfarniadau cyflog y sector cyhoeddus yn uwch nag a ragwelwyd yn flaenorol.

**33.** Fodd bynnag, cred y Pwyllgor y gellid bod wedi gwneud gwelliannau i'r ffordd y cafodd y newidiadau eu cyfleu. Rydym yn nodi y gallai'r cyhoeddiad ynghylch bwlch ariannu o £900 miliwn gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2023 fod wedi achosi pryder diangen i randdeiliaid, yn enwedig gan nad oedd yn glir bryd hynny a oedd hwn yn newid yng ngwerth y gyllideb mewn termau real o'i gymharu â phryd y cyhoeddwyd ffigurau dangosol yn Natganiad yr Hydref, neu ostyngiadau gwirioneddol i'r arian a oedd ar gael. Serch hynny, mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod bod y cyhoeddiad ynghylch cyllid ychwanegol yn ystod y flwyddyn cyn yr Ail Gyllideb Atodol a drefnwyd yn agos at ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer y GIG wedi rhoi sicrwydd i fyrddau iechyd lleol am eu gwaith cynllunio ariannol o fewn cyd-destun economaidd sy'n tynhau.

**34.** Yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cyllideb atodol ychwanegol os bydd yn cynnal ymarfer tebyg yn y dyfodol, er mwyn gwella tryloywder a sicrhau bod y Senedd yn cael y gair olaf ar benderfyniadau gwariant o'r fath.[33] Er bod y Pwyllgor yn siomedig bod y Gweinidog wedi gwrthod galwadau o'r fath,[34] rydym yn ailadrodd ein barn y dylid defnyddio gweithdrefn atodol y Senedd wrth wneud newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn er mwyn gwneud y mwyaf o waith craffu a rhoi cyfle i'r Senedd

[31] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2024, Argymhelliad 7
[32] Y Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 27 Chwefror 2024, paragraff 436
[33] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2024, Argymhelliad 6
[34] Llywodraeth Cymru, Argymhellion y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft 2024-25, 1 Mawrth 2024

bleidleisio ar newidiadau sylweddol i gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn. At hynny, mae'r Pwyllgor yn disgwyl y bydd y Gweinidog yn mynd i sesiwn dystiolaeth o dan amgylchiadau o'r fath, er mwyn rhoi cyfle i'r Senedd ddwyn penderfyniadau o'r fath i gyfrif.

**35.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau a amlinellwyd gan y Gweinidog a'i swyddogion ynghylch y prosesau sydd ar waith i fonitro a rhagweld gwariant portffolio ar draws prif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y byddai'r prosesau a ddisgrifiwyd yn awgrymu bod gan y Gweinidog y trefniadau goruchwylio priodol i fonitro gwariant yn ystod y flwyddyn ar draws Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn nodi â diddordeb y diweddariadau a ddarparwyd i'r Cabinet ar wariant adrannol yn erbyn proffiliau a rhagolygon, a hoffai i wybodaeth o'r fath gael ei gwneud yn gyhoeddus yn rheolaidd.

**36.** Yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2024-25, galwodd y Pwyllgor ar y Gweinidog i archwilio'r arfer o gyhoeddi gwybodaeth yn rheolaidd, i roi diweddariad ar y modd y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd yn erbyn ei phroffiliau gwariant.[35] Mae'r Pwyllgor yn parhau i gredu y byddai cyhoeddi gwybodaeth alldro yn ystod y flwyddyn yn rhoi'r tryloywder mwyaf posibl ac yn rhoi mwy o gyfleoedd i'r Senedd ddeall yn well y pwysau sy'n wynebu adrannau Llywodraeth Cymru a sut mae rhaglenni a chynlluniau gwariant yn cyflawni yn erbyn canlyniadau.

**Recommendation 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn galw am yr hyblygrwydd mwyaf posibl o fewn y Fframwaith Cyllidol i alluogi Llywodraeth Cymru i:

- gario cyllid ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r llall, yn enwedig pan wneir newidiadau i gyllid canlyniadol yn Amcangyfrifon Atodol y DU; a
- chynyddu'r terfynau tynnu i lawr blynyddol ar Gronfa Wrth Gefn Cymru yn 2023-24 a blynyddoedd i ddod.

**Recommendation 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y rhesymau dros benderfyniad y Trysorlys i beidio â chaniatáu'r newid mewn cyllid o refeniw i gyfalaf a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.

---

[35] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2024, Argymhelliad 8

**Recommendation 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gosod cynnig cyllideb atodol ychwanegol gerbron y Senedd wrth wneud newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn i gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru.

**Recommendation 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn mynd i sesiwn graffu ffurfiol cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi'r manylion pe bai unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i gyllideb Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.

**Recommendation 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried cyhoeddi'r wybodaeth alldro a ragwelir yn rheolaidd o fewn y flwyddyn, i gynnwys dadansoddiad o'r gwariant o fewn pob Prif Grŵp Gwariant a sut mae'r dyraniadau hyn yn cyflawni yn erbyn canlyniadau a gynlluniwyd, er mwyn darparu'r tryloywder mwyaf posibl i'r Senedd ac i'r cyhoedd yng Nghymru.

# 3. Dyraniadau eraill

## Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**38.** Mae'r Gyllideb Atodol[36] yn cynnwys y dyraniadau a ganlyn i'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

- £425 miliwn a gynhwyswyd yn flaenorol yn y Diweddariad Ariannol ym mis Hydref 2023;[37]
- £95 miliwn ar gyfer elfen Taliad Adfer ôl-ddyddiedig y cynnig cyflog i staff yr Agenda ar gyfer Newid;[38]
- £59 miliwn i dalu am y diffygion a ragwelir ar gyfer byrddau iechyd lleol, ar ben yr arbedion yn y portffolio iechyd, gan nad yw pob un wedi'i dargedu i fodloni diffygion y targed;
- £48 miliwn gan Lywodraeth y DU ar gyfer Cronfa Pedair Gwlad y DU a £47 miliwn mewn perthynas â'r Gordal Iechyd Mewnfudwyr; a
- £10 miliwn o gyfalaf i gefnogi ceisiadau offer a digidol gan fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG.

**39.** At hynny, mae £47 miliwn a glustnodwyd yn wreiddiol ar gyfer cyllid refeniw ymchwil a datblygu wedi'i ailddosbarthu fel cyfalaf.

**40.** Mae nifer o feysydd o fewn y Prif Grŵp Gwariant lle mae eu cyllid wedi'i ailflaenoriaethu i gyfrannu at arbedion yn ystod y flwyddyn ac y maent yn cael eu trosglwyddo i Linellau Gwariant yn y Gyllideb Dyraniadau Craidd y GIG. Mae'r rhain yn cynnwys:

- £26.8 miliwn o Gam Gweithredu Cefnogi Plant.
- £16.2 miliwn o Gam Gweithredu Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl.

[36] Llywodraeth Cymru, Ail Gyllideb Atodol 2023-24 - Nodyn Esboniadol, tudalen 20
[37] Llywodraeth Cymru, Diweddariad ar sefyllfa ariannol 2023-2024: crynodeb o'r prif newidiadau, 17 Hydref 2023
[38] Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Codiad dyfarniad cyflog y GIG ar gyfer 2022/2023 a dyfarniad cyflog 2023/24 i staff yr Agenda ar gyfer Newid, 20 Ebrill 2023

- £16.3 miliwn o Linell Wariant yn y Gyllideb Addysg a Gwella Iechyd Cymru.
- £9.1 miliwn o Gam Gweithredu Cyflawni Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu.

**41.** Dywedodd y Gweinidog fod un o'r meysydd allweddol yn y Gyllideb Atodol yn ymwneud â gwaith i leihau'r diffyg a adroddwyd gan y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.[39]

**42.** Wrth egluro diben y dyraniadau ychwanegol hyn, dywedodd swyddog y Gweinidog:

> *"… providing that £59 million ensures that the MEG will not overspend, including the outturn of those boards that will not reach their targets. In terms of why they are in that position, that is obviously the conversations that the health Minister will be having with those boards and the governance process that is in place and the accountability process in place, to manage the health boards in that respect."*[40]

**43.** Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd mai'r tri sefydliad sy'n rhagweld ar hyn o bryd na fyddant yn cyrraedd eu cyfansymiau rheoli targed yw byrddau iechyd prifysgol Aneurin Bevan, Hywel Dda a Betsi Cadwaladr. [41]

**44.** Pan holwyd y Gweinidog beth fyddai'r canlyniadau i fyrddau iechyd lleol pe na baent yn cyflawni eu cyfansymiau rheoli targed, cadarnhaodd:

> *"… in allocating the additional funding earlier in the year, the health Minister did make it clear that elements of that allocation would only become recurrent dependent on the progress in achieving the target control totals. So, the funds are included within the 2024-25 LHB allocations, which the Minister has issued. However, for organisations to be able to rely on that funding to be made permanently recurrent, they must be making progress that the Minister has requested, and we*

[39] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 11
[40] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 67
[41] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 68

> *would look to see that demonstrated both in their outturn this year and also their plans for the next financial year."* [42]

**45.** Fodd bynnag, ychwanegodd y Gweinidog na fydd yr alldro ar gael tan yr haf yn swyddogol[43].

**46.** Pan ofynnwyd i'r Gweinidog roi sylwadau ar oblygiadau'r gostyngiadau arfaethedig o £20 miliwn yn y dyraniad adnoddau ar gyfer polisïau iechyd meddwl a deddfwriaeth yn y Gyllideb Atodol, dywedodd wrth yr Aelodau:

> *"… the majority of funding for the mental health budget is set out in the core NHS funding, and that is ring-fenced. So, for this year, that spend is around £774 million, and it remains the area where we spend the most money within the NHS, and that hasn't been affected by the reprioritisation work that we did. So, the money which you're referring to is money which is held in a different budget line within the MEG, and, as I understand it, it hasn't resulted in cuts to front-line services, because that money had been allocated to the budget line, but hadn't yet been identified for particular projects, which is why it was available for reprioritisation."* [44]

**47.** Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd fod y cyllid ar gael i'w ryddhau oherwydd oedi yn y gwariant arfaethedig, yn hytrach na thoriadau.[45]

## Cyllid a Llywodraeth Leol

**48.** Mae'r Gyllideb Atodol[46] yn cynnwys gostyngiad refeniw net o £47.7 miliwn, a chynnydd o £58,000 mewn adnoddau heb fod yn arian parod o fewn y Prif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol.

**49.** O ran a ystyriodd y Gweinidog ddyrannu cyllid yn y Gyllideb Atodol i gwmpasu'r pwysau o ran costau o fewn gwasanaethau rheng flaen craidd a ddarperir gan awdurdodau lleol, eglurodd y Gweinidog:

> *"I think that the story of the supplementary budget, insofar as it concerns local government, is one of protecting and avoiding reductions rather than additional funding. So, I think that there*

[42] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 74
[43] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 76
[44] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 85
[45] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 87
[46] Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2023-24 - Nodyn Esboniadol, tudalen 20

> *was nothing more that we could offer, really, in terms of additional funding for local government this year, just protecting it was hard, and I know that there are going to be tough choices across public services as a result of that."*[47]

**50.** Pan holwyd y Gweinidog a oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i ddarparu cyllid ychwanegol o fewn y Prif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol i dalu am gyflogau a chyfraniadau pensiwn, yn enwedig yn y sector addysg, dywedodd:

> *"… in my letters to local authorities, in which I set out the details of the local government settlement for the next financial year, I do state within those letters that we would expect that settlement to cover teachers pay and those other pressures … I'm usually quite explicit in that that additional funding shouldn't be expected as a result."*[48]

**51.** Fodd bynnag, ychwanegodd y Gweinidog:

> *"… there have been points within recent financial years where we have been able to provide additional funding in year, through supplementary budgets … So, it's something local authorities shouldn't plan on, and shouldn't count on, but when we have been able to do it, we have been able to provide additional funding to recognise those decisions."*[49]

## Newid hinsawdd

**52.** Mae'r Gyllideb Atodol[50] yn cynnwys cynnydd refeniw net yn y Prif Grŵp Gwariant Newid Hinsawdd o ran trafnidiaeth o £91.4 miliwn, neu £201.2 miliwn, gan gynnwys adnoddau heb fod yn arian parod. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnydd yn ymwneud â Trafnidiaeth Cymru, gyda £34 miliwn o gyllid cyfalaf ychwanegol i gefnogi Llinellau Craidd y Cymoedd.[51] Mae hyn yn ychwanegol at y £125 miliwn ychwanegol a ddarparwyd i Trafnidiaeth Cymru fel rhan o'r Diweddariad Ariannol ym mis Hydref 2023, a gadarnhaodd y Gweinidog ar y pryd a fyddai'n bodloni'r pwysau.[52]

---

[47] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 98
[48] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 101
[49] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 101
[50] Llywodraeth Cymru, Ail Gyllideb Atodol 2023-24 - Nodyn Esboniadol, tudalen 20
[51] Llywodraeth Cymru, Ail Gyllideb Atodol 2023-24 - Nodyn Esboniadol, tudalen 5
[52] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 15 Tachwedd 2023, paragraff 85

**53.** Pan holwyd y Gweinidog sut yr oedd Llywodraeth Cymru yn monitro fforddiadwyedd a chynaliadwyedd y dyraniadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn a wnaed i gefnogi Trafnidiaeth Cymru, dywedodd:

> *"... the Deputy Minister for Climate Change has regular structured meetings with Transport for Wales, to maintain that appropriate oversight. So, he will meet quarterly with the chair and the CEO to discuss performance and also discuss any future issues ... They also have a monthly joint steering board, and that does provide strategic oversight and accountability, and it allows the Welsh Government's senior officials to hold to account the chair and the CEO of Transport for Wales as an additional accounting officer. And the Transport for Wales performance board takes place on a quarterly basis, and that reviews progress against Transport for Wales's annual business plan, and monitors and challenges progress towards the key performance indicators. And then, Transport for Wales and Welsh Government finance teams meet on a monthly basis, to discuss current year forecasts and also future budget planning as well."*[53]

## Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

**54.** Mae cyllid adnoddau o fewn y Gyllideb Atodol[54] ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn adlewyrchu trosglwyddiad o £16.5 miliwn i'r cronfeydd wrth gefn, gan gynnwys £8.5 miliwn o'r gyllideb ar gyfer costau rhedeg Llywodraeth Cymru a £7.3 miliwn ar gyfer ei chostau staff.

**55.** Cadarnhaodd y Gweinidog fod y gostyngiad yn y Prif Grŵp Gwariant hwn yn ymwneud ag ymarfer cyfrifyddu technegol untro, ac felly nid oes unrhyw effaith ar weinyddiaeth Llywodraeth Cymru o ganlyniad i'r ymarfer.[55] Ychwanegodd swyddog y Gweinidog:

> *"... it's following an Audit Wales recommendation where, essentially, costs have been accrued over prior years ... As a result of that, we've been able to release credits back into the*

[53] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 111
[54] Llywodraeth Cymru, Ail Gyllideb Atodol 2023-24 - Nodyn Esboniadol, tudalen 20
[55] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 117

> *system, and that's what has generated those savings this year".*[56]

**56.** Cadarnhaodd swyddog y Gweinidog hefyd nad oes unrhyw oblygiadau ymarferol o ran cyflawni.[57]

## Barn y Pwyllgor

**57.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid ychwanegol sy'n cael ei ddarparu yn y Gyllideb Atodol i gefnogi'r GIG, o ystyried y pwysau ariannu ychwanegol sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod holl ddarparwyr y sector cyhoeddus wedi wynebu pwysau ychwanegol, yn enwedig o ran tâl, ac er bod cyllid ychwanegol wedi'i ddarparu i fynd i'r afael â'r mater hwn yn y GIG, nid yw cyllid wedi'i rannu'n ehangach ar draws y prif grwpiau gwariant i gefnogi codiadau cyflog o fewn meysydd eraill, megis gofal cymdeithasol ac addysg.

**58.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r cyllid ychwanegol a ddarperir yn y Gyllideb Atodol sy'n gysylltiedig â'r gorwariant a ragwelir mewn byrddau iechyd lleol. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod angen cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â'r mater hwn o ystyried bod byrddau iechyd lleol wedi cael dyraniadau sylweddol yn yr hydref, ac mae'n credu bod hyn yn codi cwestiynau ynghylch cynaliadwyedd y gwasanaeth iechyd yn y tymor hir.

**59.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Gweinidog yn disgwyl i fyrddau iechyd lleol wneud cynnydd o ran cyrraedd eu cyfansymiau rheoli targed er mwyn i gyllid o'r fath gael ei wneud yn rheolaidd yn barhaol, ac y caiff hyn ei ddangos yn eu halldro ar gyfer eleni ac mewn cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Fodd bynnag, nodwn hefyd na fydd ffigurau alldro ar gael tan yr haf.

**60.** Felly, mae'r Pwyllgor yn galw ar y Gweinidog i weithio gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl ar y cynnydd y mae'r byrddau iechyd lleol yn ei wneud mewn perthynas â'r mater hwn, gan gynnwys manylion ynghylch sut y byddant yn cyrraedd eu cyfansymiau rheoli targed, i roi sicrwydd y gellir osgoi dyraniadau at y diben hwn yn y dyfodol.

**61.** Mae'r Pwyllgor wedi argymell yn flaenorol bod angen i'r dyraniad o gyllid sylweddol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau'r GIG fod yn gysylltiedig â

[56] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 118
[57] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 29 Chwefror 2024, paragraff 120

chanlyniadau clir a mesuradwy.[58] Felly, rydym yn ceisio sicrwydd bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â her gadarn i sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni o’r cyllid a ddarperir. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried bod darparu cyllid ychwanegol ar gyfer y GIG yn lleihau'r cyllid sydd ar gael ar gyfer meysydd eraill o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Grwpiau Gwariant eraill.

**62.** Mae’r Pwyllgor yn nodi sicrwydd gan y Gweinidog na fydd gostyngiadau yn y dyraniad adnoddau ar gyfer polisïau a deddfwriaeth iechyd meddwl o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn arwain at doriadau i wasanaethau’r rheng flaen. Serch hynny, nid yw’n glir â beth y mae’r newidiadau a wnaed gan y Gyllideb Atodol yn y maes hwn yn gysylltiedig. Yn benodol, cafodd y Pwyllgor hi’n anodd gwahaniaethu rhwng sut y caiff newidiadau yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd meddwl eu hariannu a chyllid ar gyfer polisi a deddfwriaeth iechyd meddwl eu hadlewyrchu yn nogfennau a thablau cyllideb Llywodraeth Cymru, ac mae’n galw am ragor o wybodaeth a thryloywder yn y maes hwn.

**63.** Mae’r Pwyllgor yn nodi bod cyllid ychwanegol sylweddol wedi’i ddarparu i Trafnidiaeth Cymru o fewn y Gyllideb Atodol y bwriedir iddi wneud iawn am ddiffygion mewn refeniw. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yn ystod y gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 fod teithiau rheilffordd yng Nghymru yn cael cymhorthdal o £13 neu £14 y daith,[59] ac rydym wedi gofyn yn flaenorol am ragor o wybodaeth am sut y gwneir dyraniadau yn y maes hwn.[60] Fodd bynnag, mae hwn yn faes sy’n peri pryder o hyd ac mae’r Pwyllgor yn galw am wneud mwy o waith i ddeall manteision cymorthdaliadau presennol i’r system trafnidiaeth gyhoeddus ehangach.

**64.** Mae’r Pwyllgor yn nodi bod y gostyngiadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn ymwneud ag ymarfer cyfrifyddu technegol untro ac na fydd hyn yn effeithio ar y ffordd y caiff Llywodraeth Cymru ei rhedeg o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, o ystyried gwerth sylweddol y gostyngiad hwn, hoffai’r Pwyllgor ddeall mwy am sut y mae’r newidiadau hyn yn effeithio ar reoli adnoddau o fewn Llywodraeth Cymru ac yn enwedig a fyddant yn effeithio ar niferoedd pennau.

---

[58] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2024, Argymhelliad 23
[59] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2024, paragraff 269
[60] Y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, Chwefror 2024, Argymhelliad 31

**Recommendation 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu manylion am y cynnydd y mae byrddau iechyd lleol yn ei wneud o ran cyrraedd cyfansymiau rheoli targed cyn y sefyllfa alldro yn yr haf, ac yn egluro sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd i osgoi'r angen am ddyraniadau ychwanegol yn y maes hwn yn y dyfodol.

**Recommendation 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am yr effaith y bydd gostyngiadau yn y cyllid ar gyfer polisïau iechyd meddwl drwy'r Gyllideb Atodol yn ei chael ar wasanaethau iechyd meddwl.

**Recommendation 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn cynnal asesiad effaith i ddeall manteision y cymorthdaliadau a ddarperir yn y Gyllideb Atodol i gefnogi'r system trafnidiaeth gyhoeddus ac yn rhannu ei ganfyddiadau â'r Pwyllgor erbyn Cyllideb Atodol Gyntaf 2024-25.

**Recommendation 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr effaith y bydd gostyngiadau yn y Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu yn ei chael ar niferoedd staff Llywodraeth Cymru.

# 4. Cyrff a ariennir yn uniongyrchol

**65.** Mae'r cynnig Cyllideb Atodol yn cynnig amrywiad i gyllidebau Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Trafododd y Pwyllgor y ceisiadau hyn yn ei gyfarfod ar 18 Ionawr 2024.[61] Ni chyflwynodd Comisiwn y Senedd gyllideb atodol bryd hynny.

**66.** Mae cynnig y Gyllideb Atodol hefyd yn cynnig amrywiad i gyllideb y Comisiwn Etholiadol, y telir am ei waith ar etholiadau datganoledig Cymru a refferenda datganoledig Cymru o Gronfa Gyfunol Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r cyfrifoldeb dros ystyried amcangyfrifon ariannol y Comisiwn Etholiadol yn fater i'r Pwyllgor Cyllid gan ei fod yn dod o fewn cylch gwaith Pwyllgor y Llywydd, a drafododd y mater hwn ar 22 Ionawr 2024 ac a fydd yn cyhoeddi adroddiad ar wahân ar ei ganfyddiadau.[62].

## Archwilio Cymru

**67.** Cyflwynodd Archwilio Cymru gais am amcangyfrif atodol ym mis Mehefin 2023[63] a oedd yn gofyn am addasiad nad yw'n arian parod o £94,000 mewn perthynas ag IFRS16 sy'n gysylltiedig â symud ei swyddfa i ogledd Cymru. Yn dilyn trafodaeth, derbyniodd y Pwyllgor y cais hwn yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf 2023.[64]

**68.** Ar 20 Medi 2023[65], trafododd y Pwyllgor gais atodol arall gan Archwilio Cymru[66] am gyllid ychwanegol o £442,000 er mwyn rhoi taliad costau byw o £1,500 i staff, yn unol â thaliad tebyg a roddwyd i staff Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi.

**69.** Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd y Pwyllgor at Archwilio Cymru ar 28 Medi[67] gan fynegi cydymdeimlad â chais y Bwrdd i geisio'r cyllid ychwanegol a chydnabod yr anawsterau a oedd yn ei wynebu wrth geisio cynnwys y gost hon o fewn ei gyllideb arferol. Yn y llythyr, tanlinellodd y Pwyllgor mai safbwynt Llywodraeth Cymru oedd y dylai cyrff geisio cynnwys y taliad hwn o'u cyllidebau presennol ac y byddai'r cais am gyllid ychwanegol yn amodol ar benderfyniad

[61] **Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 18 Ionawr 2024**
[62] Pwyllgor y Llywydd, Agenda, 24 Ionawr 2024
[63] **Archwilio Cymru: Cyllideb Atodol 2023-24, Mehefin 2023**
[64] **Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 6 Gorffennaf 2023**
[65] **Y Pwyllgor Cyllid, Agenda, 20 Medi 2023**
[66] **Archwilio Cymru: Cyllideb Atodol Bellach 2023-24, Awst 2023**
[67] **Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Archwilio Cymru**

gan y Senedd gyfan pan fydd yn trafod y Cynnig Cyllideb Atodol nesaf ym mis Mawrth 2024.

**70.** Yn dilyn hynny, ysgrifennodd Archwilio Cymru at y Pwyllgor ar 6 Rhagfyr 2023[68] gan nodi y byddai'n tynnu'r cais am y £442,000 ychwanegol a nodir yn yr Amcangyfrif Atodol yn ôl. Mae’r llythyr yn nodi bod Archwilio Cymru wedi sicrhau gostyngiad o £400,000 yn ei gostau adeiladau dadfeiliedig cysylltiedig â symud o swyddfa Heol y Gadeirlan ym mis Mawrth 2023. Byddai hyn, ynghyd â rhai arbedion llai yn ystod y flwyddyn, a nodwyd mewn cyllidebau eraill, yn caniatáu i Archwilio Cymru ariannu’r taliad costau byw i staff o’i gyllideb ar gyfer 2023-24, gan hepgor yr angen i gyflwyno amcangyfrif atodol. Fodd bynnag, byddai'r cais am amrywiad nad yw’n arian parod a wnaed yn wreiddiol ym mis Mehefin 2023, fel yr amlinellwyd ym mharagraff x uchod, yn parhau.

**71.** Roedd y llythyr hefyd yn cadarnhau y byddai unrhyw arian nad oedd wedi’i wario ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru drwy addasiad gweinyddol yn 2024-25, yn ôl yr arfer.

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**72.** Mae Cyllideb Atodol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru[69] yn cynnig gostyngiad o £108,000 i’w ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru. Mae’r gostyngiad hwn yn dilyn cytundeb ar ddyfarniad cyflog a oedd yn llai na’r swm a oedd wedi’i gynnwys yng Nghyllideb Atodol Gyntaf yr Ombwdsmon,[70] fel yr amlinellodd yn ei llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr.[71] Pan gyflwynodd yr Ombwdsmon ei Chyllideb Atodol Gyntaf, roedd y dyfarniad cyflog yn ansicr, ond roedd yn glir y byddai’n fwy na’r swm a oedd wedi’i gynnwys yn yr amcangyfrif cychwynnol ar gyfer 2023-24. Cytunodd y Pwyllgor ar y cais yn y Gyllideb Atodol Gyntaf ond dywedodd, pe bai’r dyfarniad cyflog gwirioneddol yn is, na fyddai’r swm cyfatebol yn cael ei ryddhau, neu byddai’n cael ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.[72]

---

[68] **Llythyr gan Archwilio Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid**
[69] **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Ail Gyllideb Atodol 2023-24**
[70] **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24**
[71] **Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid**
[72] **Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24**, Casgliad 3.

**73.** Ar 26 Ionawr, ymatebodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru[73] i adroddiad y Pwyllgor ar y Gwaith Craffu Blynyddol ar waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024-25[74] a chadarnhaodd:

> *"Mae'r dyfarniad cyflog wedi'i setlo a thalwyd y codiad cyflog i'r staff ym mis Tachwedd. Y cynnydd cyfartalog o ganlyniad i ddyfarniad cyflog llywodraeth leol ym mis Ebrill 2023 yw tua 5.4%"* [75]

**74.** Mae llythyr yr Ombwdsmon yn nodi:

> *"Byddwn hefyd yn cyflwyno cyllidebau atodol ar gyfer y flwyddyn gyfredol [2023-24], ac ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf [2024-45], i leihau ein cyllidebau yn unol â hynny.*[76]

## Barn y Pwyllgor

**75.** Mae'r Pwyllgor yn falch bod Archwilio Cymru wedi gallu lleihau ei gostau adeiladau dadfeiliedig sy'n gysylltiedig â symud swyddfa ac wedi nodi arbedion yn ystod y flwyddyn, sydd wedi caniatáu iddo roi taliad costau byw i staff o fewn ei gyllideb ar gyfer 2023-24, yn hytrach na bod angen arian ychwanegol drwy gyfrwng cyllideb atodol.

**76.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu Ail Gyllideb Atodol yr Ombwdsmon sy'n dychwelyd £108,000 i Gronfa Gyfunol Cymru gan fod y dyfarniad cyflog y cytunwyd arno'n llai na'r swm a oedd wedi'i gynnwys yng Nghyllideb Atodol Gyntaf yr Ombwdsmon. Mae hyn yn cyd-fynd ag argymhelliad 6 yn adroddiad y Pwyllgor ar y Gwaith Craffu Blynyddol ar waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024-25.[77] At hynny, rydym yn croesawu ymrwymiad yr

---

[73] **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Gwaith Craffu Blynyddol ar waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024-25**

[74] **Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Amcangyfrif ar gyfer 2024-25**

[75] **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Gwaith Craffu Blynyddol ar waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024-25**

[76] **Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid**

[77] **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Gwaith Craffu Blynyddol ar waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024-25**, Argymhelliad 6

Ombwdsmon i'n hargymhelliad[78] y dylid cyflwyno cyllideb atodol i ddileu'r tanwariant cysylltiedig â'r dyfarniad cyflog o'r llinell sylfaen ar gyfer Amcangyfrif 2024-25, pan ddaw'r cyfle nesaf.

**Conclusion 1.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Archwilio Cymru wedi tynnu'n ôl ei gais am £442,000 ychwanegol a nodwyd yn ei Amcangyfrif Atodol, ac mae'n falch ei fod wedi gallu sicrhau gostyngiad yn ei gostau adeiladau dadfeiliedig, ac wedi rhoi sylw dyledus i Ddatganiad o Egwyddorion y Pwyllgor[79] i gronni arbedion effeithlonrwydd er mwyn ariannu'r taliad costau byw i'w staff, gan hepgor yr angen i gael cyllid ychwanegol.

**Conclusion 2.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr amrywiad yn y cyllidebau ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Conclusion 3.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gyflwyno cyllideb atodol i ddileu'r tanwariant cysylltiedig â'r dyfarniad cyflog o'r llinell sylfaen ar gyfer ei Amcangyfrif 2024-25.

[78] **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y Gwaith Craffu Blynyddol ar waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024-25**, Argymhelliad 6
[79] **Y Pwyllgor Cyllid, Datganiad o Egwyddorion**